# Addysg Gorfforol

## Pam astudio Addysg Gorfforol?

Mae'r cwrs yn darparu nifer o gyfleoedd gwahanol i ddatblygu sgiliau ymchwil drwy weithgarwch corfforol a chwaraeon. Mae materion cyfoes o fewn chwaraeon a'r gymdeithas yn cael eu hymchwilio yn  ogystal â ffisioleg chwaraeon, seicoleg chwaraeon a meithrin sgiliau. Nid yn unig y byddwch yn cael cyfle i berfformio a hyfforddi un gweithgaredd corfforol mewn asesiad di-arholiad, ond byddwch hefyd yn datblygu gwybodaeth am weithgarwch corfforol a chwaraeon. Mae'r cyfuniad o astudiaethau academaidd a gweithgarwch corfforol yn darparu cyfle i fyfyrwyr wella'u perfformiad a'u sgiliau hyfforddi drwy ddefnyddio damcaniaethau.

## Gofynion y cwrs

Bydd gradd B mewn TGAU Addysg Gorfforol, Gwyddoniaeth a Chymraeg neu Saesneg yn sicrhau lle i chi ar y cwrs hwn. Efallai bydd graddau C yn y pynciau hyn yn dderbyniol yn dilyn cyfarfod gyda'r pennaeth adran a phennaeth y chweched. Yn ogystal â'r graddau hyn, mae angen i chi gystadlu mewn o leiaf un gweithgaredd corfforol yn wythnosol.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

**Uned 1: Archwilio addysg gorfforol**
Arholiad ysgrifenedig: 1 ¾ awr (60% o'r cymhwyster UG)

**Uned 2: Gwella perfformiad personol mewn addysg gorfforol**
Perfformiad mewn un gweithgaredd fel chwaraewr/perfformiwr ac fel hyfforddwr neu ddyfarnwr. Bydd angen cwblhau proffil perfformiad personol hefyd.
Asesiad di-arholiad (40% o'r cymhwyster UG)

### Uwch

**Uned 3: Gwerthuso addysg gorfforol**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr (36% o'r cymhwyster llawn)

**Uned 4: Mireinio perfformiad personol mewn addysg gorfforol**
Perfformiad ymarferol mewn un gweithgaredd fel chwaraewr/perfformiwr, hyfforddwr neu ddyfarnwr. Bydd angen cwblhau ymchwil ymchwiliol hefyd.
Asesiad di-arholiad (24% o'r cymhwyster llawn)

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Byddwch yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy megis llunio penderfyniadau o dan bwysau, dealltwriaeth seicolegol o bobl, meddwl yn annibynnol, datrys problemau a sgiliau dadansoddol. Mae Lefel A mewn Addysg Gorfforol yn cynnig sylfaen wych ar gyfer astudio gradd prifysgol mewn gwyddorau chwaraeon, rheoli chwaraeon, gofal iechyd, neu ymarfer ac iechyd. Fe all hefyd arwain at nifer o gyfleoedd gyrfa megis datblygu chwaraeon, gwyddorau chwaraeon, hyfforddi chwaraeon, ffisiotherapi, ymarfer personol a dysgu. Gall y cwrs hefyd fod yn ddefnyddiol wrth feddwl am yrfa yn y gwasanaethau cyhoeddus.





"Rwyf wedi mwynhau'r pwnc hwn yn enfawr, mae yna llawer o agweddau gwahanol ac mae llawer mwy iddo nag yr ydych chi'n meddwl. Mae wedi rhoi cyfle i mi ddysgu am bethau nad oeddwn i'n gwybod eu bod yn rhan o'r pwnc."
William Brown



"Mae Addysg Gorfforol wedi caniatáu imi wella llawer o fy sgiliau. Mae'r gwaith cwrs yn caniatáu imi hyfforddi unigolion. Rwy'n ei fwynhau yn fawr ac mae'r staff addysgu yn wych."
Tom Whall

